# YR ATODLENNI

## ATODLEN 6

## ER MWYN DIOGELU NETWORK RAIL

*Arbedion ar gyfer cytundebau mynediad*

**18.—**(1) Pan fo gofyn, o dan yr Atodlen hon, i Network Rail gydsynio i unrhyw fater neu ei gymeradwyo, gellir rhoi'r cydsyniad hwnnw neu'r gymeradwyaeth honno yn ddarostyngedig i'r amod bod Network Rail yn cydymffurfio â'r rheini o'i rwymedigaethau yn unol ag unrhyw gytundeb mynediad neu unrhyw brydles ar orsaf neu ar orsaf cynnal-a-chadw ysgafn sy'n berthnasol i'r mater hwnnw.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "cytundeb mynediad", "gorsaf" a "gorsaf cynnal a chadw ysgafn" yr un ystyr ag sydd i "*access agreement*", "*station*" a "*light maintenance depot*" yn adran 83 o Deddf Rheilffyrdd 1993.